GIG CYMRU NHS WALES | Cyd-bwyllgor Comisiynu Joint Commissioning Committee

**Cofnodion wedi'u Cadarnhau**
**Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (ADC) y Cyd-Bwyllgor Comisiynu**
**27 Ebrill 2026 am 13:30**
**trwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau:** | | |
| Susan Elsmore | (SE) | Cadeirydd ac Aelod Lleyg, CBCGC |
| Mandy Rayani | (MR) | Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg, CBCGC |
| Shameem Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg, CBCGC |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd, CBCGC |
| Adrian Clarke | (AC) | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, CBCGC |
| Melanie Wilkie | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol, CBCGC |
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol, CBCGC (ar gyfer rhan o'r cyfarfod yn unig) |
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu, CBCGC |
| Gavin Owen | (GO) | Dirprwy Gyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, CBCGC |
| Rhodri Pyart | (RP) | Arweinydd Ansawdd Rhwydwaith Arennau Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (yn siarad am eitem 4.1) |
| **Yn Arsylwi:** | | |
| Vicki Dawson-John | (VDJ) | Partner Busnes Ansawdd a Chanlyniadau, CBCGC |
| Sian Lane | (SL) | Pennaeth Ansawdd, CBCGC |
| Kirsty John | (KJ) | Partner Busnes Ansawdd a Chanlyniadau, CBCGC |
| Adele Roberts | (AR) | Pennaeth Ansawdd a Gofal Cleifion, CBCGC |
| Helen Tyler | (HT) | Pennaeth Llywodraethu a Risg, CBCGC |
| Emma Jones | (EJ) | Nyrs Arweiniol Rhwydwaith Arennau Cymru |
| Angela Mutlow | (AM) | Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, Llais |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Dr Phillip Kloer | (PK) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, CBCGC |
| Sue OLeary | (SO) | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed, CBCGC |
| **Cofnodion:** | | |
| Gareth Mitchell | (GM) | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, CBCGC |

| **Cyfeirnod yr Eitem** | **Eitem Agenda** |
|---|---|
| QSO26/001 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed y cyflwyniadau. Roedd y cyfarfod, a gynhaliwyd trwy Microsoft Teams, yn ffurfio cworwm ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod at ddibenion gweinyddol. |
| QSO26/002 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb fel y manylwyd uchod. |
| QSO26/003 | **1.3 Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai oedd yn bresennol ynghylch pwysigrwydd cofnodi datganiadau o fuddiant. |
| QSO26/004 | **1.4 Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2026 a Materion Sy'n Codi**<br>**Cymeradwywyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Chwefror 2026 fel cofnod gwir a chywir. Tynnwyd sylw at un mân wall teipograffyddol a chafodd hwn wedyn ei gywiro. |
| QSO26/005 | **1.5 Cofnod Camau Gweithredu** |

| | |
|---|---|
| | Derbyniwyd y Cofnod Camau Gweithredu. **Nododd** yr aelodau'r cam gweithredu a gynigiwyd fel un i'w gau – QSO025/026. Cytunodd ID fod cynnydd wedi'i wneud gyda phresenoldeb ar y Panel Cyllido Cleifion Unigol ac y byddai diweddariadau'n cael eu rhannu er mwyn i'r mater gael ei uwchgyfeirio pe bai'r sefyllfa'n gwaethygu. |
| QSO26 /006 | **2.1 Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth Llywodraeth Cymru – Y Llwybr at Ddechrau Mwy Diogel yng Nghymru**<br>Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad yn crynhoi canfyddiadau "Y Llwybr at Ddechrau Mwy Diogel", adolygiad sicrwydd cenedlaethol annibynnol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru, a'i berthnasedd i waith cynllunio'r Cyd-bwyllgor Comisiynu (CBC) yn y dyfodol. Cyflwynodd Carole Bell (CB) y canfyddiadau allweddol a oedd yn amlygu cryfderau a gwendidau mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru.<br>**Nododd** yr aelodau:<br>• **Pwrpas a Chwmpas yr Adolygiad** Eglurodd CB mai nod yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd asesu ansawdd, diogelwch, tegwch a chysondeb gofal mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru o ganlyniad i bryderon ynghylch amrywiadau a materion penodol ledled y wlad.<br>• **Canfyddiadau Allweddol ac Argymhellion** Canfu'r adolygiad lawer o gryfderau mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru ond nododd hefyd wendidau sylweddol, yn enwedig o ran lefelau staffio, monitro data amser real ac oedi mewn ad-drefnu gwasanaethau newyddenedigol. Gwnaed naw argymhelliad, rhai ohonynt yn uniongyrchol berthnasol i'r CBC. Nid oedd yr adolygiad yn cynnig ad-drefnu'r gwasanaeth, ei fwriad yn hytrach yw llywio penderfyniadau comisiynu'r dyfodol a chryfhau'r achos dros newid system posibl.<br>• **Cyfrifoldebau Comisiynu'r CBC:** Eglurodd CB fod y CBC yn comisiynu gofal dwys newyddenedigol a gwasanaethau dibyniaeth uchel ond nid gofal arbennig na gofal trosiannol. Mae bwrdd rhaglen 3 blynedd cenedlaethol wedi'i ffurfio ac mae cyfranogiad y CBC yn y dyfodol yn dibynnu ar y cylch gorchwyl sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.<br>• **Heriau Staffio a Chyfluniad y Gwasanaeth:** Tynnodd yr adolygiad sylw at y ffaith nad yw'r lefelau staffio a'r cyfluniadau presennol yn diwallu anghenion y boblogaeth, gan gyfeirio at safonau Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM) ar gyfer meincnodi, a nododd fod gormod o oedi wedi bod gyda'r dadansoddiad o, ac ad-drefnu'r ddarpariaeth newyddenedigol yn Ne Cymru. Mae sawl ffactor wedi oedi cwblhad Cam 1 a Cham 2 o ad-drefnu'r Gwasanaethau Newyddenedigol<br>• Rhoddodd CB grynodeb o'r Ddarpariaeth Newyddenedigol a gomisiynir gan y CBC ar hyn o bryd ac eglurodd sut y mae safonau'r BAPM yn berthnasol. Rhoddodd CB hefyd grynodeb o'r gwasanaethau cludiant newyddenedigol acíwt yn Ne Cymru, sydd wedi bod yn gweithredu fel trefniadau "interim" ers 2021. Mae Cam Dau o'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau newyddenedigol wedi'i ohirio o hyd ac mae hyn yn achosi oedi mewn gwneud penderfyniadau am staffio a gwasanaeth i Fyrddau Iechyd sy'n darparu'r gwasanaethau.<br>• **Y Camau Nesaf a Llinellau Amser:** Mae gwasanaethau newyddenedigol wedi'u categoreiddio fel blaenoriaeth strategol yng Nghynllun Blynyddol CBCGC ar gyfer 2026/2027. Mae'r CBC yn chwilio am adnodd allanol annibynnol i gefnogi'r adolygiad o gyfluniad cotiau newyddenedigol a chludiant, gyda dogfen gwmpasu i'w chyflwyno i'r CBC ym mis Mai a'r disgwyl y bydd adroddiad terfynol gydag argymhellion yn cael ei gyflwyno ym mis Medi. Mae Prif Swyddog Gweithredol arweiniol (Carole Shillabeer - BIPBC) a noddwr Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol (CCLG) wedi'u dynodi i arwain ar y gwaith hwn. Bydd Mandy Rayani (MR) yn cynrychioli'r Aelodau Lleyg.<br><br>Trafododd y Pwyllgor berchnogaeth risg a threfniadau llywodraethu. Cadarnhawyd y bydd y CBC yn gyfrifol am risgiau'n ymwneud â gwasanaethau y mae'n eu comisiynu'n uniongyrchol, tra bydd risgiau system ehangach yn cael eu huwchgyfeirio trwy'r strwythurau llywodraethu sefydledig. Cydnabuwyd rôl y CBC mewn cyfrannu at reolaeth risg ar draws y system.<br><br>Trafododd yr Aelodau gymhwysiad safonau BAPM, gan nodi bod yn rhaid ystyried y rhain yn gyfannol yn hytrach nag o safbwynt y gweithlu yn unig. Cydnabuwyd efallai na fydd y cyfluniad |

| | |
|---|---|
| | gwasanaeth presennol yn gynaliadwy pan gaiff ei asesu yn erbyn lefelau a safonau gweithgaredd, ac y bydd fforddiadwyedd a gwariant cyfredol yn rhan o'r asesiad comisiynu. Cydnabu'r Pwyllgor bod angen cydbwysedd rhwng darparu gofal yn agos at adref a'r angen i grynhoi arbenigedd ar gyfer achosion risg uchel.<br><br>Pwysleisiwyd bwysigrwydd arbenigedd ac ymgysylltiad clinigol priodol, gyda chadarnhad y bydd arbenigedd newyddenedigol mewnol ac allanol yn llywio ac yn tanategu'r adolygiad strategol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd bod asesiad ariannol yn cynnwys dadansoddiad o wariant cyfredol ac ystyriaethau fforddiadwyedd yn rhan o'r asesiad comisiynu cyffredinol. Cododd sawl aelod bryderon ynghylch ddichonoldeb yr amserlenni arfaethedig, sef yr hyn sy'n peri'r mwyaf o bryder o hyd.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** diweddariad a **chefnogi** parhad y gwaith. |
| QSO26 /007 | **3.1 Cofrestr Risg y Cyd-bwyllgor Comisiynu – Risgiau a Neilltuwyd i'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau (ADC)**<br>Derbyniodd y Pwyllgor y risgiau a neilltuwyd o Gofrestr Risg Weithredol CBCGC i'r Is-bwyllgor ADC ar 1 Ebrill 2026. Ar ôl craffu ac adolygu gan yr Is-bwyllgor ADC, bydd y Cyd-bwyllgor Comisiynu yn derbyn cofrestr risg Ebrill 2026 yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026. Nododd **yr aelodau**:<br>• Bod y risgiau yr un fath i raddau helaeth ond cafwyd cadarnhad y gallai hyn newid unwaith y bydd Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor wedi'i roi ar waith.<br>• Bod un risg a oedd yn dechrau dod i'r amlwg cysylltiedig â chynaliadwyedd trawsblaniadau arennau - yr adroddwyd yn ei gylch hefyd yn adroddiad Rhwydwaith Arennau Cymru, wedi'i lliniaru ac o'r herwydd nid yw bellach wedi'i chynnwys yn yr adroddiad.<br><br>Holodd yr Aelodau ynghylch y risgiau penodol a nodir isod:<br>• Risg 78 (y defnydd o gapasiti'r Gwasanaeth Ambiwlans Brys) – Ystyriodd y Pwyllgor gwestiynau ynghylch Risg 78, yn ymwneud â'r defnydd o gapasiti'r gwasanaeth ambiwlans brys, gan gynnwys eglurhad ar y camau nesaf a'r cyfraddau amser a ragwelir. Nodwyd mai ychydig iawn o ddulliau uniongyrchol sydd ar gael i'r CBC yn ei rôl fel comisiynydd i leddfu'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans o ran amseroedd trosglwyddo cleifion a chapasiti, gan fod yr heriau hyn i raddau helaeth yn deillio o'r rhyngweithio gweithredol rhwng darparwyr a byrddau iechyd unigol. Pwysleisiwyd felly mai swyddogaeth y Pwyllgor yw darparu sicrwydd a dylanwadu yn hytrach na rheolaeth weithredol uniongyrchol. Cynghorwyd yr aelodau fod gwaith ar y gweill ar lefel genedlaethol ar ofal brys ac amseroedd trosglwyddo ambiwlansys, gyda mewnbwn y CBC yn cyfrannu at y gwaith hwn, ochr yn ochr ag ymgysylltiad parhaus â chydweithwyr a darparwyr Llywodraeth Cymru. Trafododd y Pwyllgor yr angen i ailddiffinio ac ail-egluro'r risg o bersbectif comisiynu, er mwyn sicrhau eglurder ynghylch pa agweddau ar y risg sydd o fewn dylanwad a rheolaeth y CBC. Cydnabuwyd na fyddai'r ail-fframio hwn yn dileu'r risg sylfaenol ond y byddai'n cryfhau craffu, sicrwydd ac aliniad â chyfrifoldebau comisiynu'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor fod Risg 78 yn parhau i fod yn risg strategol barhaus a chytunodd y byddai gwaith pellach i fireinio'r disgrifiad o'r risg a'r rheolaethau cysylltiedig yn helpu i ateb y cwestiynau a godwyd.<br>• Risg 89 (Darpariaeth Gwasanaeth Niwroleg Pediatrig ar gyfer Gogledd Cymru) – Mae'r gwasanaeth yn parhau i brofi diffyg adnoddau o ganlyniad i swyddi gwag parhaus a salwch staff. Bydd y sgôr risg bresennol yn cael ei chynnal hyd nes y caiff y materion hyn eu datrys.<br>• Risg 91 (Gwasanaeth Anemia Etifeddol - capasiti yn Ne Cymru) Roedd y gwasanaeth anemia etifeddol wedi'i gynnwys yng Nghynllun Blynyddol 2026/27 oherwydd galw anochel, sydd ar hyn o bryd 50% yn uwch na'r hyn a gomisiynwyd. Gofynnwyd i'r darparwr gyflwyno achos busnes, a fydd yn cael ei adolygu i ddechrau gan y Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol (CCLG). Unwaith y bydd yr achos busnes wedi'i adolygu, dylai'r risg leihau gan ei bod wedi'i chynnwys yn y cynllun. |

| | |
|---|---|
| | • Risg 82 (Gwasanaethau Niwroadsefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe) a Risg 95 (Gwasanaethau Niwroadsefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ) – Cafodd cam olaf y buddsoddiad ei oedi y llynedd fel rhan o fesurau lliniaru ariannol. Ni ddisgwylid unrhyw fuddsoddiad newydd yn unedau niwroadsefydlu Byrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe na Chaerdydd a'r Fro. Bydd yn rhaid cynnal sgyrsiau ynghylch y lefel o risg sy'n dderbyniol gan nad yw'r cofnodion risg presennol wedi'u fframio'n briodol. Felly, bydd angen i'r risg adlewyrchu goddefiant risg yn hytrach na chamau cyflawni. Bydd mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith mewn achosion lle gallai ansawdd y gwasanaeth / diogelwch cleifion fod dan fygythiad.<br>• Risg 65 (Capasiti dialysis arennol ledled Cymru) – Mae risgiau trawsblaniadau yn ymwneud â Chaerdydd wedi'u dad-ddwysáu. Bydd recriwtio parhaol a chytundeb cymorth cydfuddiannol gyda gwasanaeth Bryste yn helpu i leihau'r risg hon ymhellach. Roedd gwaith ar ffitrwydd cleifion, mewn perthynas â Thrawsblaniad yn Gyntaf (Transplant First), ar y gweill.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad.<br>• **Ystyried** a **chraffu** ar y risgiau a neilltuwyd ar ran CBCGC<br>• **Cymeradwyo'r** Gofrestr Risg i ddarparu **sicrwydd** ymlaen llaw i'r CB ynghylch rheolaeth effeithiol y risgiau. |
| QSO26 /008 | **4.1 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol**<br>Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau yn ymwneud â'r gyfarwyddiaeth comisiynu Gwasanaethau Arbenigol. Cyflwynodd MW yr adroddiad ac esboniodd y byddai'r tîm comisiynu Gwasanaethau Arbenigol yn defnyddio'r templed wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br>**Nododd** yr aelodau:<br>• Bod y CBC yn gweithio gyda BIPBA i ddatblygu trefniadau interim i gomisiynu gwasanaethau llawfeddygaeth gordewdra haen 4 dros dro ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a thrigolion Gogledd Powys ar ôl i Gynghrair Gofal y Gogledd (Northern Care Alliance) gyflwyno rhybudd eu bod yn terfynu eu contract.<br>• Mewn perthynas ag Awdioleg Arbenigol, dywedwyd wrth yr aelodau bod y cyfarfod uwchgyfeirio wedi'i aildrefnu ac y byddai'n cael ei gynnal yn ddiweddarach yn yr wythnos. Roedd disgwyl i'r darparwr gadarnhau cyflawniad yn erbyn targedau diwedd blwyddyn; fodd bynnag, y ffocws i gomisiynwyr oedd sicrhau bod gwelliannau'n gynaliadwy ac nad oeddent wedi'u cyflawni trwy fentrau rhestrau aros unwaith yn unig. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â rheolaeth tymor hirach y Cytundeb Hirdymor (CH), gan gynnwys trafodaethau am gynhyrchiant, effeithlonrwydd ac ail-leoli posibl gyda Chaerdydd i sicrhau llif incwm priodol i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu a chomisiynwyr dwyochrol eraill.<br>• Cafodd yr aelodau eu briffio ar yr heriau parhaus yn y gwasanaethau Methiant Coluddyn (IF). Er bod materion cynharach yn ymwneud a'r fframwaith darparwyr wedi'u lliniaru trwy drafodaethau wedi'u hwyluso, mae rhwystrau newydd wedi codi mewn perthynas â chymorth yr ysbyty ar gyfer maeth parenterol yn y cartref a newid bagiau. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae'r mater wedi'i uwchgyfeirio i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ar gyfer Cynllunio. Mae bwriad o hyd i brif ffrydio IF mewn tîm comisiynu unwaith y bydd risgiau allweddol wedi'u datrys; yn y cyfamser bydd yn parhau i gael ei drin fel mater ar wahân ac yn cael ei adrodd yn ei gylch yn rheolaidd i'r Pwyllgor hwn.<br>• Nododd y Pwyllgor gynlluniau ar gyfer adolygiad strategol o wasanaethau thrombectomi, gan gynnwys tystiolaeth ar gyfer darpariaeth 24/7 yn Ne Cymru, trefniadau contractiol, cyfluniad llwybrau, trafnidiaeth a rhanbartholi gofal strôc. Yn y cyfamser bydd y trefniadau contractiol presennol yn parhau ac yn cael eu monitro'n agos i wneud y mwyaf o werth a pherfformiad y system.<br>• Tynnwyd sylw at risg sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â Thechnoleg Gynorthwyol Electronig, a gomisiynwyd o fewn y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar. Roedd y galw yn fwy na'r twf a ragwelwyd a'r cyllid sydd ar gael, yn enwedig y galw am offer cyfathrebu i blant a phobl ifanc. Mae cyfrifoldebau ar draws iechyd, gwasanaethau |

| | |
|---|---|
| | cymdeithasol ac addysg yn parhau i fod yn aneglur, ac mae ymgysylltiad awdurdodau lleol wedi lleihau o ganlyniad i'r canfyddiad bod cyllid canolog ar gyfer hyn. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn cwynion, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r galw, capasiti, amseroedd aros a gofynion cyllido'r dyfodol, gan sicrhau bod ymatebion i achwynwyr yn cyd-fynd â'r camau y cytunwyd arnynt.<br>• Adroddwyd ynghylch cyfyngiadau capasiti sylweddol ar gyfer llawdriniaeth adlunio'r fron DIEP, yn enwedig yng Nghanolbarth Lloegr, sy'n effeithio ar gleifion o Gymru a Lloegr fel ei gilydd. Nododd yr Aelodau amseroedd aros hir, darparwyr amgen cyfyngedig ar gyfer cleifion Canolbarth Cymru, a mynediad cyfyngedig i gleifion Gogledd Cymru yn dilyn llawdriniaethau lleihau risg (heb fod yn ganser). Er bod gan Caerdydd y gallu i ddarparu'r gwasanaeth, nid yw'n cael ei gomisiynu ar hyn o bryd fel rhan o'r rhaglen llawdriniaeth ar y fron. Mae gwaith i nodi darparwyr amgen a llwybrau hyfyw yn parhau Mewn ymateb i gwestiwn aelod, cydnabuwyd nad oedd gwir raddau'r amseroedd aros am driniaeth adlunio bob amser yn weladwy oherwydd bod y llwybrau'n dameidiog. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddeall profiad cleifion o'r dechrau i'r diwedd a meintioli cyfanswm yr amseroedd aros.<br>• Roedd ardystiad y Cyd-bwyllgor Achredu (JACIE) yn parhau i fod yn risg. Roedd Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynllun cyfalaf. Roedd datrysiad interim ar gyfer cleifion allanol eisoes ar waith. Gofynnwyd am gyfarfod rhwng y byrddau gweithredol ddechrau mis Mai i drafod argymhellion, goblygiadau refeniw a rheolaeth achosion busnes yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn flaenorol, os na chaiff ardystiad ei gynnal, deallir y byddai gwasanaethau CAR-T yn cael eu hatal oherwydd cyfyngiadau cyflenwadau fferyllol, ac efallai y bydd angen trefniadau comisiynu amgen ar gyfer gwasanaethau Trawsblannu Gwaed a Mêr Esgyrn (BMT) Mae mesurau lliniaru'n cynnwys rhanddirymiad posibl ar gyfer darparu gwasanaethau lleol a datblygu llwybrau gyda darparwyr Saesneg.<br>• Yn olaf, cynghorwyd y Pwyllgor ynghylch mater uwchgyfeirio yng ngwasanaethau niwroleg pediatrig De Cymru, lle nad yw clinigau allgymorth hanesyddol o Gaerdydd i Dde-orllewin Cymru wedi'u darparu'n gyson. Roedd hyn yn cael ei uwchgyfeirio i Gyfarwyddwr Gweithrediadau Ysbyty Plant Caerdydd a'r Fro, gyda chomisiynwyr a chlinigwyr yn gweithio gyda'i gilydd i asesu'r effeithiau, nodi bylchau, a chynnwys camau adfer yn y flaenraglen waith.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** diweddariadau comisiynu gwasanaethau arbenigol sydd wedi'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.<br>• **Nodi'r** crynodeb o'r risgiau yn y gwasanaethau arbenigol ac uwchgyfeirio yn ôl yr angen a;<br>• Derbyn yr adroddiad fel **sicrwydd**. |
| QSO26 /009 | **4.2 Adroddiad gan Rwydwaith Arennau Cymru**<br>Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau yn ymwneud â Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN). Nododd **yr aelodau**:<br>• Diweddariad ar y risg yn y gwasanaeth trawsblaniadau yr adroddwyd yn ei chylch yn gynharach, yn ymwneud ag atal y rhaglen oherwydd cyfyngiadau yn ymwneud â'r gweithlu a chapasiti llawfeddygol. Rhoddwyd sicrwydd bod llawfeddygon locwm a llawn amser bellach wedi'u penodi, a bod cynllun gweithredu ffurfiol yn cael ei ddatblygu. Cynghorwyd yr aelodau bod lefel y risg wedi lleihau, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno yn y cyfarfod blaenorol.<br>• Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am risg newydd a ddynodwyd yn ymwneud â thrin dŵr a chymorth technegol yn y gwasanaethau dialysis yng Nghaerdydd. Disgrifiwyd hon fel risg weithredol yn bennaf, gyda chynllun lleol clir ar waith. Nodwyd fod y broses yn cael ei chefnogi, a bod trefniadau rheoli lleol priodol ar waith.<br>• Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad hefyd ar ddigwyddiadau yr adroddwyd yn eu cylch, gan gynnwys digwyddiad unigol a oedd yn rhan ochos ehangach o Enterobacteriaceae sy'n cynhyrchu carbapenemase (CPO) ar ward yng Nghaerdydd. Cadarnhawyd bod Adroddiad Digwyddiad Hysbysadwy (NRI) wedi'i gwblhau ar gyfer yr holl achosion a |

| | |
|---|---|
| | bod y Pwyllgor eisoes wedi derbyn adroddiad am hyn. Mae'r dysgu o'r digwyddiad wedi'i rannu ledled Cymru drwy gyfarfodydd Rhwydwaith Arennau Cymru, a chafodd yr Aelodau eu sicrhau bod y camau lliniaru a roddwyd ar waith yn lleol wedi lleihau'r risg.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad<br>• Derbyn yr adroddiad fel **sicrwydd** |
| QSO26 /010 | **4.3 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111**<br>Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau cysylltiedig â gwasanaethau Ambiwlans ac 111 gyda ffocws penodol ar: Amseroedd Trosglwyddo Ambiwlansys Brys, perfformiad 111 GIG a Gwasanaethau Cludo Cleifion Di-frys (NEPTS).<br>**Nododd** yr aelodau:<br>• Bod **oedi mewn trosglwyddo** cleifion yn parhau i fod yn risg ansawdd a diogelwch arwyddocaol ar draws y system gofal brys ac argyfwng, er gwaethaf rhywfaint o welliant yn dilyn cyflwyno'r safon trosglwyddo 45 munud. Mae perfformiad yn parhau i amrywio ledled Cymru a rhwng Byrddau Iechyd, ac mae'r oedi yn dal yn uwch na'r capasiti a gomisiynwyd.<br>• Profodd gwasanaeth 111 y GIG alw parhaus ac annodweddiadol o uchel dros gyfnod y Pasg diweddar, gyda chyfeintiau tua 47% yn uwch na'r lefelau disgwyliedig ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben 5 Ebrill 2026. Roedd y cynnydd hwn yn fwy na'r cynnydd yn ystod yr un cyfnod yn 2025 a pharhaodd y tu hwnt i ŵyl y banc.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) yn parhau i weithredu o fewn amgylchedd galw a chapasiti heriol, a hynny o ganlyniad i fwy o weithgarwch rhyddhau a throsglwyddo, pwysau o ran llif cleifion yn y system ehangach a chyfyngiadau fforddiadwyedd. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) wedi datblygu a chyflwyno ystod o opsiynau i gomisiynwyr. Mae Grŵp Sicrwydd Comisiynu NEPTS wedi archwilio'r opsiynau hyn, gyda chomisiynwyr yn darparu goruchwyliaeth, her a sicrwydd ynghylch eu haliniad a'u heffaith.<br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Fformat newydd yr adroddiad a'i defnyddioldeb o ran y ffordd y mae bellach yn darparu gwybodaeth benodol am faterion ansawdd a diogelwch.<br>• Mewn perthynas â Gwasanaethau Cludo Cleifion Di-frys, codwyd pryder ynghylch newidiadau i'r meini prawf cymhwysedd a gofyn i gleifion aildrefnu apwyntiadau lle nad oedd modd darparu cludiant. Pwysleisiwyd y byddai unrhyw newid i gymhwysedd yn golygu newid i'r gwasanaeth ac y gallai hynny gael effaith andwyol sylweddol ar brofiad cleifion, yn enwedig o ystyried yr amseroedd aros am apwyntiadau ar hyn o bryd. Cadarnhaodd GO nad oedd unrhyw gytundeb wedi'i wneud i newid y meini prawf cymhwysedd, a'u bod yn gweithredu o fewn y meini prawf presennol a'r Cylchlythyr Iechyd Cymru perthnasol o 2025. Roedd y darparwr wedi cadarnhau ymgysylltiad parhaus â'r rhanddeiliaid perthnasol, a dim newidiadau i'w rhoi ar waith heb y cytundeb a'r sicrwydd priodol.<br>• Gofynnodd yr aelodau am adroddiadau cliriach ynghylch a lwyddwyd i wireddu effeithiau ansawdd a diogelwch ai peidio, ac ymrwymodd GO i wneud hyn yn gliriach mewn diweddariadau yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br><u>Trosglwyddiadau Ambiwlansys Brys</u><br>• **Cymeradwyo'r** camau sy'n cael eu cymryd i adolygu risgiau cyfredol y CBC.<br>• **Derbyn sicrwydd** bod y camau gweithredu sydd o fewn cylch gwaith y CBC i liniaru risg yn cael sylw.<br><u>Perfformiad 111</u><br>• **Derbyn sicrwydd** bod y camau o fewn cylch gwaith y CBC yn cael eu cymryd i liniaru risg<br><u>Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys (NEPTS)</u><br>• **Derbyn sicrwydd** bod y camau o fewn cylch gwaith y CBC yn cael eu cymryd i liniaru risg |

| | |
|---|---|
| QSO26 /011 | **4.4 Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed (IMADAGAN)**<br>Derbyniwyd adroddiad ar faterion ansawdd, diogelwch a chanlyniadau sy'n ymwneud â'r Gyfarwyddiaeth IMADAGAN. Cymerwyd y papur fel yr oedd, gyda meysydd allweddol yn cael eu hamlygu yn ystod y drafodaeth.<br>**Nododd** yr aelodau:<br>• **St Andrew's Healthcare, Northampton** - cafodd yr aelodau’r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa sydd ohoni gyda St Andrew's Healthcare. Mae'r gwasanaeth wedi'i atal o Fframwaith Ysbytai Cymru o hyd ac yn parhau i fod yn destun goruchwyliaeth uwch. Roedd GIG Lloegr yn cydlynu'r rhaglen o adleoli cleifion, gyda threfniadau llywodraethu diwygiedig sy’n disodli’r strwythurau gorchymyn aur ac arian blaenorol yn cefnogi hyn. Nodwyd fod angen lleoliadau amgen ar gyfer 287 o gleifion yn genedlaethol (268 ar y safle ar hyn o bryd), gan gynnwys 7 o gleifion o Gymru a gafodd eu lleoli trwy Fframwaith GIG Cymru. Oherwydd cymhlethdod y cyflwyniadau, rhagwelwyd y bydd adleoli yn cymryd hyd at 18 mis. Yn y cyfamser, mae gan GIG Lloegr staff ar y safle sy'n darparu goruchwyliaeth 24 awr. Mae teuluoedd a gofalwyr cleifion o Gymru’n derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol a gwnaed trefniadau ar gyfer ymweliadau rheolaidd gan reolwyr achos. Nododd yr aelodau gysylltiad parhaus ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), gan gynnwys rhannu gwybodaeth yn rheolaidd ac adolygu cynlluniau gweithredu darparwyr gyda thystiolaeth ategol.<br>• **Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta** - Nododd yr Is-bwyllgor fod gwasanaeth anhwylderau bwyta’r sector annibynnol yn Nhŷ Glyn Ebwy wedi cau ar 2 Ebrill 2026, gyda'r cleifion GIG Cymru olaf wedi’u rhyddhau . Adroddwyd bod y galw am leoliadau anhwylder bwyta cleifion mewnol wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae adolygiad o'r ddarpariaeth anhwylderau bwyta yng Nghymru, mewn cydweithrediad â'r Coleg Seiciatreg Brenhinol, ar y gweill i asesu'r galw yn y dyfodol a modelau gofal amgen posibl.<br>• **Gwasanaethau wedi’u Huwchgyfeirio - Clinig Caswell -** Nododd yr aelodau fod Clinig Caswell yn dal i fod ar Lefel Uwchgyfeirio 3. Gofynnwyd i'r darparwr gyflwyno adolygiad chwe mis ar y safonau diogelwch ac ansawdd a nodwyd yn flaenorol, a bydd hwn yn cael ei asesu i weld pa gynnydd a wnaed ac i benderfynu a ellir gostwng lefel yr uwchgyfeiriad. Adroddwyd bod cyfarfodydd gyda'r darparwr bellach yn cael eu cynnal yn fisol yn hytrach nag yn wythnosol gyda mwy o ffocws ar sicrwydd, camau gwella a'r llwybr allan o uwchgyfeiriad. Nododd yr Aelodau hefyd fod arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi’i gynnal ym mis Ionawr, heb unrhyw bryderon uniongyrchol newydd wedi'u nodi y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn destun cynllun gwella gweithredol.<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• **Gwasanaethau Diogel a Chapasiti** - trafodwyd heriau cysylltiedig â defnydd a chapasiti mewn gwasanaethau diogelwch canolig ac uchel. Nododd yr Aelodau fod Gwasanaeth Diogelwch Canolig Caswell yn gweithredu gyda llai o gapasiti oherwydd cyfyngiadau cysylltiedig â’r ystâd a modelau gofal sy'n esblygu, ac y byddai adolygiadau gwasanaeth yn y dyfodol yn ystyried ailfodelu, datblygu'r gweithlu a gwneud defnydd mwy effeithiol o’r ddarpariaeth bresennol. Rhoddwyd eglurhad hefyd ynglŷn â lleoli cleifion benywaidd yn Ysbyty Rampton, gan gadarnhau bod y lleoliadau hyn yn ymwneud ag anghenion iechyd meddwl yn hytrach nag anableddau dysgu.<br>• **Gwasanaethau Dysfforia Rhywedd** - Derbyniodd yr Aelodau ddiweddariad ar wasanaethau rhywedd plant a phobl ifanc, gan gynnwys cyhoeddiad manyleb gwasanaeth ddiwygiedig GIG Lloegr a'r stop dros dro ar ragnodi hormonau gwrywaidd a benywaidd ar gyfer pobl dan 18 oed nad ydynt wedi’u derbyn o’r blaen. Cadarnhawyd bod cleifion cyfredol yn parhau i dderbyn gofal, a bod CBCGC yn ceisio mynediad amserol at ddata perfformiad gan ddarparwyr newydd ar gyfer cleifion Cymru. Rhoddwyd diweddariad hefyd ar Wasanaeth Rhywedd Cymru, gan gynnwys newid mewn arweinyddiaeth glinigol a chynlluniau ar gyfer adolygiad fesul cam o'r gwasanaeth, gyda chefnogaeth arbenigedd allanol yng ngoleuni adolygiadau cenedlaethol diweddar. |

| | |
|---|---|
| | • **Gwasanaethau Cleifion Mewnol Amenedigol** - Nododd yr Aelodau fod Seren Lodge, yr uned cleifion mewnol amenedigol newydd yn Ysbyty Iarlles Caer, bellach yn gwbl weithredol, gyda chleifion o Gymru eisoes yn cael mynediad i'r gwasanaeth. Mae'r adborth a gafwyd am brofiad cleifion wedi bod yn gadarnhaol, heb unrhyw gwynion wedi'u cofnodi hyd yma, er bod yr Aelodau yn cydnabod rhai heriau cysylltiedig â phrosesau derbyn ac phrydlondeb. Cytunwyd y bydd data am brofiad cleifion yn parhau i gael ei gasglu, ac y gellid dod â stori claf yn ôl i'r Is-bwyllgor yn y dyfodol fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu.<br>**CAM GWEITHREDU:** Cynnwys stori claf am eu profiad o'r Gwasanaethau Cleifion Mewnol Amenedigol mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br>• **CAMHS Arbenigol a Gwasanaeth Glasoed Gogledd Cymru (NWAS)** - Nododd yr Is-bwyllgor ddiweddariadau ar y ddarpariaeth CAMHS Arbenigol, gan gynnwys cynnydd gwaith adnewyddu yn Nhŷ Llidiard a chyhoeddiad adroddiad arolygu AGIC cyffredinol gadarnhaol. Tynnwyd sylw at faterion parhaus yn ymwneud ag yswiriant meddygol y tu allan i oriau arferol ar gyfer NWAS, gan gynnwys digwyddiad a arweiniodd at leoliad y tu allan i'r ardal y byddai wedi bod modd ei osgoi dros benwythnos gŵyl y banc. Nododd yr aelodau fod y mater hwn yn cael sylw trwy fonitro perfformiad a thrafodaethau ynghylch y cytundeb lefel gwasanaeth.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Derbyn sicrwydd** bod risgiau neu faterion diogelwch cleifion o fewn y gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu rheoli a'u monitro fel y nodir uchod. |
| QSO26 /012 | **4.5 Llwybrau Uwchgyfeirio**<br>Derbyniwyd a nodwyd yr Adroddiad ar Lwybrau Uwchgyfeirio, gyda'r Pwyllgor yn cydnabod bod manylion y gwasanaethau sydd wedi'u huwchgyfeirio wedi'u trafod mewn diweddariadau blaenorol. Ar hyn o bryd roedd dau wasanaeth wedi'u huwchgyfeirio.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad a derbyn **Sicrwydd** o'r diweddariadau a gafwyd yn yr adroddiadau a rannwyd. |
| QSO26 /013 | **4.6 Adroddiad Digwyddiadau a Phryderon**<br>Derbyniwyd adroddiad yn amlinellu crynodeb o'r pryderon a'r digwyddiadau a adroddwyd i'r CBC gan ddarparwyr a gwasanaethau a gomisiynir (o fewn y ffenestr adrodd1 Chwefror - 31 Mawrth). **Nododd** yr aelodau:<br>• Bod 6 o Ddigwyddiadau a Adroddir yn Genedlaethol (NRI) newydd wedi'u hadrodd yn y ffenestr adrodd hon.<br>• Mae 5 cwyn newydd wedi'u hadrodd yn y ffenestr adrodd hon.<br>• Derbyniwyd 19 NRI yn ymwneud ag amseroedd trosglwyddo ambiwlanys. Mae Perfformiad a Gwelliant y GIG (PaG GIG) wedi ymgymryd â darn ar wahân o waith i ddeall categoreiddio. Roedd y tîm yn gweithio gyda PaG GIG i ddeall y goblygiadau i'r sefydliad.<br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Yr angen am fwy o fanylion i roi sicrwydd digonol i'r CBC. Cydnabuwyd bod angen i ddarparwyr gynnal ymchwiliadau ar y Digwyddiadau a Adroddir yn Genedlaethol cyn y gellir rhoi adborth i'r timau comisiynu ac adrodd yn ôl i'r Is-bwyllgor. Awgrymodd CB y dylid rhannu diweddariad ar adroddiad digwyddiadau a phryderon CBCGC ar ddiwrnod datblygu sydd i'w drefnu.<br>**CAM GWEITHREDU: Sesiwn datblygu/gaeedig i ddigwydd i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am brosesau Digwyddiadau a Adroddir yn Genedlaethol.**<br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Craffu** ar gynnwys yr adroddiad<br>• **Rhoi sicrwydd** i CBCGC ar y diweddariadau a rannwyd. |
| QSO26 /014 | **4.7 Adroddiad y Rheoleiddiwr (Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)/Comisiwn Ansawdd Gofal (CAG)**<br>Derbyniwyd adroddiad yn rhoi crynodeb o adroddiadau AGIC a'r CAG. **Nododd** yr aelodau:<br>• Y cynhaliodd y CAG un arolygiad mewn perthynas â St Andrew's Healthcare. |

| | |
|---|---|
| | • Cynhaliwyd un arolygiad AGIC mewn perthynas â Chlinig Caswell.<br>• Mae sgôr 3Q Llys Llanarth wedi'i adfer.<br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Yr angen i ddeall strategaeth newydd AGIC, er nad oes unrhyw gamau gweithredu ar gyfer y CBC<br>**CAM GWEITHREDU: CB i gynnwys diweddariad penodol a mwy manwl ar Strategaeth AGIC yn adroddiad nesaf y rheoleiddiwr.**<br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad; a<br>• **Derbyn** yr adroddiad er **sicrwydd** |
| QSO26 /015 | **4.8 Adroddiad gan Banel Cais am Gyllid Cleifion Unigol Cymru Gyfan (IPFR)**<br>Derbyniwyd Adroddiad Panel IPFR. **Nododd** yr aelodau:<br>• Bod yr adroddiad yn cadarnhau bod 34 o geisiadau IPFR wedi'u hadolygu yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill 2026. O'r rhain, ymdriniwyd â thri fel gweithredoedd cadeiryddion oherwydd eu natur frys yn hytrach nag oherwydd bod cyfarfodydd wedi'u canslo.<br>• Ers yr adroddiad blaenorol ym mis Mawrth, ni lwyddodd panel IPFR Cymru Gyfan i ffurfio cworwm ar un achlysur oherwydd nad oedd aelodau'r Panel Bwrdd Iechyd ar gael. Ymdriniwyd ag achosion brys naill ai trwy Baneli Gweithredu Cadeirydd neu eu gohirio i ddod gerbron cyfarfod Panel diweddarach. Ar y cyfan, mae presenoldeb aelodau panel IPFR wedi dangos gwelliant, a bydd yn cael ei gadw dan adolygiad.<br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Mae ID wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, ar ôl iddynt adrodd nad oedd y panel wedi defnyddio'r polisi meini prawf wedi'i ddiweddaru wrth wneud penderfyniadau, cadarnhaodd ID y byddai ei adborth yn egluro nad yw'r canllaw gwneud penderfyniadau yn rhan o'r polisi ac y dylid diweddaru'r adroddiad.<br>• Pan fydd clinigwyr yn gohirio ceisiadau tan y dyddiad cau terfynol, nid yw'n effeithio ar brofiad cleifion gan fod y ceisiadau yn cael eu prosesu yn y pen draw. Fodd bynnag, mae'r arfer hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y tîm sy'n gyfrifol am ymdrin â'r ceisiadau hyn.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad.<br>• **Derbyn** yr adroddiad fel sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y Panel IPFR. |
| QSO26 /016 | **5.1 Cylch Gorchwyl a Dogfen Gwmpasu'r Grŵp Dilysu Polisi**<br>Derbyniwyd Cylch Gorchwyl a Dogfen Gwmpasu'r Grŵp Dilysu Polisi. Nododd yr Aelodau fod y cyfarfod agoriadol wedi digwydd ar 16 Ebrill.<br><br>Nododd yr Aelodau y bydd asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal yn rheolaidd ond cydnabuwyd y gellid cryfhau'r cyfeiriad at y gofyniad hwn i'w wneud yn fwy eglur. Rhoddwyd sicrwydd bod yr ystyriaethau hyn wedi'u trafod yng nghyfarfod mis Ebrill a chytunodd AF i ofyn am eiriad ychwanegol i gryfhau'r cyfeiriadau at Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Gweithgaredd Gwella Ansawdd.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad.<br>• **Cymeradwyo:**<br>  ○ Cylch Gorchwyl y Grŵp Dilysu Polisi<br>  ○ Cwmpas a rhestr wirio ar gyfer y Grŵp Dilysu Polisi<br>  ○ Gweithdrefn ar gyfer datblygu, adolygu a diweddaru polisïau comisiynu CBCGC |
| QSO26 /017 | **5.2 Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2025-2026**<br>Derbyniodd yr Aelodau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft, a nodwyd y bydd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd CTM (ARAC) ar 19 Mai fel rhan o'r Cyfrifon drafft. Bydd wedyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyd-bwyllgor ym mis Mai 2026 i'w gymeradwyo. Bydd y dogfennau terfynol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod ARAC ar 25 Mehefin 2026 i'w hargymell er cymeradwyaeth y Bwrdd ar 26 Mehefin 2026 cyn eu cyflwyno i Archwilio |

| | |
|---|---|
| | Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol BIPCTM ar 29 Mehefin 2026.<br>Dywedodd yr Aelodau fod yr adroddiad yn ddefnyddiol o ran atgoffa'r aelodau ynghylch y prosesau llywodraethu sy'n cynnal CBCGC<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Adolygu** a **rhoi adborth** ar yr agweddau sy'n berthnasol i ansawdd yr Adroddiad Atebolrwydd drafft; ac<br>• **Ardystio'r** Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft er cymeradwyaeth y Pwyllgor. |
| QSO26 /018 | **5.3 Blaengynllun Busnes 2026-2027**<br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** Blaengynllun Busnes ar gyfer 2026-2027. |
| QSO26 /019 | **5.4 Adolygiad yr Is-bwyllgor o Effeithiolrwydd**<br>Atgoffodd AF pawb fod yr arolygon effeithiolrwydd yr is-bwyllgor wedi'u dosbarthu ac anogodd unrhyw un nad oedd wedi ymateb eto i wneud hynny. Nodwyd bod lefelau ymgysylltiad yn is na'r disgwyl, gyda phedwar ymateb wedi'u derbyn hyd yma, tri ohonynt gan aelodau lleyg. Roedd y themâu cychwynnol a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion a dderbyniwyd yn cynnwys adborth ar ddrafftio ac eglurder papurau a'r angen i gryfhau cynrychiolaeth weithredol a phrif swyddogion mewn cyfarfodydd pwyllgor Nododd y Pwyllgor y byddai'r trefniadau'n cael eu hadolygu i sicrhau dirprwyaeth briodol ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol pan nad oedd yn gallu mynychu, ac y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu trwy adroddiadau prif bwyntiau. |
| QSO26 /020 | **6.1 Cynllun Diogelwch Cleifion Cenedlaethol GIG Cymru 2026-2031**<br>Cynhwyswyd y ddogfen i'w **nodi.** Cydnabuwyd fod y cynllun yn darparu fframwaith cyffredin i ddarparwyr asesu a gwella diogelwch cleifion, gyda disgwyl i'r CBC ei ddefnyddio fel offeryn sicrwydd mewn trafodaethau â darparwyr. Trafododd y pwyllgor bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn cyd-fynd â'r cynllun diogelwch, gyda chyfranogiad parhaus mewn grwpiau cenedlaethol a monitro gweithredu ar ran darparwyr. |
| QSO26 /021 | **6.2 Gwrando ar bobl: Proses cwynion, digwyddiadau a gwneud iawn diwygiedig GIG Cymru**<br>Cynhwyswyd y ddogfen i'w nodi. Proses Cwynion a Gwneud Iawn wedi'i Diweddaru: Mae'r canllawiau 'Gwrando ar Bobl' yn disodli prosesau blaenorol, gydag ychydig iawn o newidiadau i'r CBC, ar wahân i gynnig cyfarfodydd ffurfiol i achwynwyr a gweithio'n agosach â sefydliadau lletyol ar adrodd. |
| QSO26 /022 | **7.1 Unrhyw fusnes arall**<br>**7.1.1 Strwythur Adrodd Rhwydwaith Arennau Cymru (WKN)**<br>Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch a ddylid ystyried adroddiad RhAC ar wahân. Roedd y penderfyniad i barhau ag adroddiad ar wahân ar gyfer Rhwydwaith Arennau Cymru yn seiliedig ar argymhellion yr adolygiad llywodraethu i sicrhau gwelededd weithredol a chydnabyddiaeth o'i gyfrifoldebau llwybr ehangach y tu hwnt i wasanaethau a gomisiynir.<br><br>Cytunodd y pwyllgor i gynnal y trefniant presennol am flwyddyn arall ac adolygu ei effeithiolrwydd yn 2027.<br><br>**7.1.2 Fframwaith Uwchgyfeirio Clinigol – Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor**<br>Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y fframwaith uwchgyfeirio clinigol a'i aliniad â Fframwaith Sicrwydd y Cyd-bwyllgor (FfSCB). Eglurwyd y bydd y fframwaith uwchgyfeirio'n cael ei ymgorffori yn FfSCB ochr yn ochr â'r fframwaith rheoli perfformiad sy'n datblygu. Cynghorwyd yr aelodau fod y fframwaith uwchgyfeirio wedi'i adolygu a bod trefniadau gweithredol ategol sy'n disgrifio prosesau mewnol wedi'u cwblhau. Sicrhawyd y Pwyllgor y bydd cyfres lawn ac aliniol o ddogfennau, gan gynnwys y fframwaith uwchgyfeirio wedi'i ddiweddaru, yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin i'w hystyried.<br><br>**7.13 Ffarwel ag Adrian Clarke** – Diolchodd y Cadeirydd i AC am ei gyfraniadau gwerthfawr a dymunodd yn dda iddo ar ei ymddeoliad. |
| QSO26 /023 | **7.2 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol** |

| | |
|---|---|
| | • **Gwasanaethau Newyddenedigol a Mamolaeth – Risgiau Cyflawni** Codwyd pryderon ynghylch yr amserlenni tynn a gynigiwyd a'r angen am ymgysylltiad clinigol parhaus i gyflawni'r camau angenrheidiol. Roedd risg na fyddai'r amserlenni'n cael eu bodloni, ac mae hyn yn gofyn am fonitro ac uwchgyfeirio pe bai risgiau cyflawni'n dod i'r amlwg.<br>• **Gwasanaethau Arbenigol - Gwasanaethau gyda Phryderon Uwchgyfeirio** O safbwynt gwasanaethau arbenigol, cadarnhawyd bod yna bryderon uwchgyfeirio mewn gwasanaethau penodol, gyda chamau gweithredu perthnasol a chynllun gwaith i gael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor.<br>• **Gwasanaethau Iechyd Meddwl – Dychwelyd Cleifion (St Andrew's)** Nodwyd yn benodol bod angen diweddariad ac uwchgyfeirio i lefel CBC oherwydd yr effaith uniongyrchol ar gleifion.<br>• **Gwelyau Diogel / Arbenigol – Cau Unedau a Diffyg Capasiti yng Nghymru** Mae cau Tŷ Glyn Ebwy, ynghyd â phrinder gwelyau yng Nghymru, yn gofyn am uwchgyfeirio ffurfio i'r CBC. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor gael gwybod am y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau lleoliadau amgen, gan fod hyn yn cynrychioli risg arwyddocaol o ran parhad gwasanaeth a chomisiynu.<br>• **Caswell – Uwchgyfeirio a Chynllun Gweithredu sydd eto i ddod i law.** Ar adeg y drafodaeth, nid oedd y cynllun gweithredu wedi'i dderbyn eto ond roedd cyfarfod wedi'i drefnu. Bydd hwn yn parhau i fod yn fater uwchgyfeirio gweithredol hyd nes y derbynnir sicrwydd.<br>• Tynnodd themâu cynnar o'r a**dolygiad effeithiolrwydd** sylw at yr angen i gryfhau cynrychiolaeth prif swyddogion gweithredol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Ar hyn o bryd dim ond un Prif Swyddog Gweithredol sy'n aelod enwebedig o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau. |
| QSO26 /024 | **7.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Bydd y cyfarfod nesaf sydd wedi'i gadarnhau yn cael ei gynnal ar 29 Mehefin 2026.<br>Daeth y cyfarfod i ben am 16.05. |